OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2506 (Cy.224)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*21 Medi 2004*
Yn dod i rym - -	*30 Medi 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 47 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 30 Medi 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys at ddibenion ariannu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar ôl 31 Mawrth 2005.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "blwyddyn ariannol flaenorol" ("*preceding financial year*") yw'r flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol o dan sylw;

ystyr "blwyddyn ariannol o dan sylw" ("*financial year in question*") yw'r flwyddyn ariannol y mae cyfrannau cyllideb ysgolion a gynhelir yn cael eu penderfynu ar eu cyfer;

ystyr "y Cyngor Cenedlaethol" ("*the National Council*") yw Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant(**3**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**4**));

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

(**1**) 1998 p.31; i gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 142(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) Sefydlwyd y Cyngor Cenedlaethol gan adran 30 o Ddeddf 2000.
(**4**) 1996 p.56.

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000(**5**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**6**);

ystyr "dosbarth meithrin" ("*nursery class*") yw dosbarth sy'n cael addysg amser-llawn neu ran-amser sy'n addas yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;

ystyr "Rheoliadau 1999" ("*the 1999 Regulations*") yw Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999(**7**);

ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003(**8**));

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol gymunedol arbennig neu ysgol sefydledig arbennig neu ysgol feithrin a gynhelir.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi'i eirio) at ysgol feithrin a gynhelir, ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, yn cynnwys ysgol newydd (o fewn ystyr adran 72(3) o Ddeddf 1998) a fydd, ar ôl gweithredu cynigion ar gyfer sefydlu'r ysgol o dan unrhyw ddeddfiad, yn ysgol o'r fath ac yn un a chanddi gorff llywodraethu dros dro.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at gorff llywodraethu yn cynnwys corff llywodraethu dros dro ar ysgol newydd sy'n dod o fewn paragraff (2).

(4) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at ysgol gynradd neu ysgol uwchradd yn golygu ysgol gynradd neu uwchradd sydd (neu a fydd) yn ysgol gymunedol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol.

(5) Yn y Rheoliadau hyn nid yw cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi'i eirio) at ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yn cynnwys ysgolion nad ydynt yn ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir ym mharagraff (1).

(6) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at wahardd disgybl yn barhaol yn gyfeiriad at waharddiad parhaol y disgybl fel y'i diffinnir o dro i dro at ddibenion adran 494 o Ddeddf 1996(**9**).

(7) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i'r geiriau neu'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac a nodir isod yn y paragraff hwn yr ystyron a roddwyd iddynt gan y darpariaethau a bennir —

addysg feithrin (*nursery education*):

adran 117 o Ddeddf 1998;

anghenion addysgol arbennig (*special educational needs*):

adran 312(1) o Ddeddf 1996;

blwyddyn ariannol (*financial year*):

adran 579(1) o Ddeddf 1996;

blwyddyn ysgol (*school year*):

adran 579(1) o Ddeddf 1996(**10**);

cyfnod allweddol (*key stage*):

adran 103 o Ddeddf 2002;

(**5**) 2000 p.21.
(**6**) 2002 p.32.
(**7**) O.S. 1999/101 a ddiwygiwyd gan O.S. 2000/911 (Cy.40), 2001/495 (Cy. 22), 2002/136 (Cy.19) a 2003/538 (Cy.75).
(**8**) O.S. 2003/3118 (Cy.296).
(**9**) Amnewidiwyd adran 494 gan baragraff 128 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998.
(**10**) Mewnosodwyd gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), Atodlen 7, paragraff 43.

cyfran o'r gyllideb (*budget share*):

adran 47 (1) o Ddeddf 1998;

cyllideb ddirprwyedig (*delegated budget*):

adran 49(7) o Ddeddf 1998;

cyllideb ysgolion (*schools budget*):

adran 45A(2) o Ddeddf 1998;

cyllideb ysgolion unigol (*individual schools budget*):

adran 45A(3) o Ddeddf 1998(**11**);

fformwla (*formula*):

rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn;

ysgol feithrin (*nursery school*):

adran 6(1) o Ddeddf 1996(**12**).

(8) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn a rifwyd felly ac mae cyfeiriad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff a rifwyd felly yn y rheoliad neu'r Atodlen lle mae'r cyfeiriad yn ymddangos.

Dirymu a darpariaethau trosiannol

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) ac i'r graddau y maent yn gymwys yng Nghymru, dirymir Rheoliadau 1999 (i'r graddau nad ydynt wedi'u dirymu eisoes(**13**)), Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2000(**14**), Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001(**15**), Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2002(**16**)) a Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003(**17**) o 1 Ebrill 2005 ymlaen.

(2) Er gwaethaf paragraff (1), caniateir i gyfran cyllideb ysgol gael ei hailbenderfynu o dan Reoliadau 1999, yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2005, os yw'r ailbenderfyniad hwnnw yn gwneud darpariaeth ar gyfer —

(a) disgyblion a waharddwyd yn barhaol neu a dderbyniwyd ar ôl gwaharddiad parhaol; neu

(b) cywiro gwallau, p'un ai mewn cyfrif neu ddata, o dan unrhyw un o ddarpariaethau Rheoliadau 1999.

(3) Er gwaethaf paragraff (1), mae Rhan IV (Cynlluniau) o Reoliadau 1999 ac Atodlen 5 iddynt yn parhau mewn grym.

Dyrannu cyllideb ysgolion unigol

4. Rhaid i awdurdod addysg lleol ddyrannu ym mhob blwyddyn ariannol, yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn, y cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol am y flwyddyn ariannol honno fel cyfrannau cyllideb ysgolion y mae'n eu cynnal.

(**11**) Mewnosodwyd adran 45A gan adran 41(1) o Ddeddf 2002 (O.S. 2003/2961 (Cy. 278)).
(**12**) Diwygiwyd adran 6(1) gan adran 156(1) o Ddeddf 2002.
(**13**) Dirymwyd rheoliadau 2, 3 a 5 o Reoliadau 1999, ac Atodlen 2 iddynt, ar 1 Ebrill 2004 gan Reoliadau 2003.
(**14**) O.S. 2000/911 (Cy.40).
(**15**) O.S. 2001/495 (Cy.22).
(**16**) O.S. 2002/136 (Cy.19).
(**17**) O.S. 2003/538 (Cy.75).

Amseriad penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau cyllideb

5.—(1) Rhaid i swm cyfran cyllideb ysgol am flwyddyn ariannol gael ei benderfynu i gychwyn gan yr awdurdod addysg lleol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol honno.

(2) Ar y cychwyn nid oes rhaid i awdurdod addysg lleol ddyrannu'r cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol ar ffurf cyfrannau o'r gyllideb ar ddechrau blwyddyn ariannol, ac yn lle hynny caniateir iddo ddal ei afael ar swm ar gyfer ailbenderfyniadau neu gywiro gwallau ond rhaid i'r swm hwnnw gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw neu gael ei ddosbarthu i ysgolion yn unol â gofynion rheoliad 18(4) cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

Ymgynghori

6.—(1) Yn ychwanegol at ymgynghori â'r fforwm ysgolion ar gyfer ei ardal(**18**), rhaid i awdurdod addysg lleol ymgynghori â chorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol y mae'n ei chynnal am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffactorau a'r meini prawf a gymerwyd i ystyriaeth, neu'r dulliau, yr egwyddorion a'r rheolau a fabwysiadwyd yn ei fformwla o dan Reoliadau 1999 neu'r Rheoliadau hyn yn y flwyddyn ariannol flaenorol (gan gynnwys unrhyw ffactorau, meini prawf, dulliau, egwyddorion neu reolau newydd).

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys i newidiadau sy'n cael eu gwneud yn unol â rheoliadau 5(2), 15, 18(3) neu 19.

(3) Rhaid bod ymgynghori o dan y rheoliad hwn yn digwydd mewn digon o amser i ganiatáu i'r canlyniad gael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu fformwla'r awdurdod ac wrth wneud penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau cyllideb ysgolion cyn dechrau'r flwyddyn ariannol o dan sylw.

(4) Rhaid i awdurdod addysg lleol hysbysu pob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy o ganlyniad yr ymgynghori.

(5) Ceir bodloni'r gofyniad i ymgynghori ym mharagraff (1), ynglŷn â newidiadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2005, drwy ymgynghoriad sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2004 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Y fformwla ar gyfer penderfynu cyfrannau cyllideb

7.—(1) Rhaid i awdurdod addysg lleol benderfynu cyn dechrau blwyddyn ariannol, ac ar ôl yr ymgynghori y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 6, y fformwla y byddant yn ei defnyddio i benderfynu cyfrannau cyllideb ysgolion yn y flwyddyn ariannol honno gan roi sylw i'r ffactorau, y meini prawf a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i awdurdod addysg lleol roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol i fformwla o'r fath fod yn syml, yn wrthrychol, yn fesuradwy, yn rhagweladwy o ran ei heffaith ac wedi'i mynegi'n glir.

(3) Ni chaiff awdurdod addysg lleol ddefnyddio ffactorau na meini prawf yn ei fformwla sy'n cymryd i ystyriaeth, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw swm a ddyrannwyd i'r ysgol o unrhyw grant a dalwyd i'r awdurdod gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Cyngor Cenedlaethol.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 22 (trefniadau ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol), rhaid i awdurdod addysg lleol ddefnyddio'r fformwla a benderfynwyd o dan baragraff (1) ym mhob penderfyniad ac ailbenderfyniad ar gyfrannau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

(**18**) Cafodd y fforymau ysgolion eu sefydlu gan reoliad 2 o Reoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 (O.S. 2003/2909 (Cy.275)).

Niferoedd disgyblion

8.—(1) Wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion meithrin, rhaid i awdurdod addysg lleol gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny ar unrhyw ddyddiad neu ddyddiadau a benderfynir gan yr awdurdod, a'r niferoedd hynny wedi'u pwysoli os yw'r awdurdod yn credu ei bod yn briodol yn unol â pharagraff (8).

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw nifer y disgyblion cofrestredig yn cynnwys—

(a) disgyblion y mae grant yn daladwy ar eu cyfer i'r awdurdod gan y Cyngor Cenedlaethol o dan adran 36 o Ddeddf 2000;

(b) disgyblion mewn lleoedd y mae'r awdurdod yn cydnabod eu bod wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu (ac eithrio pan fo'r awdurdod addysg lleol yn dewis peidio ag arfer ei ddisgresiwn o dan reoliad 10 mewn perthynas â phlant mewn dosbarthiadau meithrin) ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin.

(3) Pan fo'r awdurdod yn penderfynu un dyddiad yn unig at ddibenion paragraff (1), rhaid iddo fod yn ddyddiad sy'n dod —

(a) cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol o dan sylw; a

(b) yn y flwyddyn ysgol y mae 1 Ebrill, yn y flwyddyn ariannol o dan sylw, yn dod ynddi.

(4) Pan fo'r awdurdod yn penderfynu ar fwy nag un dyddiad at ddibenion paragraff (1), yna —

(a) rhaid i un o'r dyddiadau hynny fodloni paragraff (3);

(b) o ran y dyddiad arall neu'r dyddiadau eraill —

(i) ni chaiff unrhyw ddyddiad fod yn gynt na dechrau'r flwyddyn ysgol y mae 1 Ebrill, yn y flwyddyn ariannol o dan sylw, yn dod ynddi, a

(ii) caiff yr awdurdod benderfynu dyddiad neu ddyddiadau sydd yn y dyfodol ac amcangyfrif nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny.

(5) Nid yw paragraffau (4) a (5) yn gymwys i ddisgyblion mewn dosbarthiadau meithrin neu ddosbarthiadau derbyn y mae'r awdurdod yn eu cymryd i ystyriaeth o dan baragraff (1).

(6) Caiff awdurdod, wrth benderfynu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion arbennig, neu ar gyfer ysgolion cynradd neu uwchradd gyda lleoedd y mae'r awdurdod yn eu cydnabod fel rhai sydd wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin, gymryd i ystyriaeth yn ei fformwla —

(a) nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion arbennig hynny; neu

(b) nifer y disgyblion yn y lleoedd hynny sydd wedi'u cadw mewn ysgolion cynradd neu uwchradd,

ar unrhyw ddyddiad neu ddyddiadau a benderfynir gan yr awdurdod (a'r cyfrannau hynny wedi'u pwysoli os yw'r awdurdod yn credu ei bod yn briodol yn unol â pharagraff (8)).

(7) Os yw'r awdurdod yn amcangyfrif nifer y disgyblion cofrestredig mewn ysgol yn unol â pharagraff (4)(b), rhaid iddo ymgynghori â phennaeth yr ysgol.

(8) Caiff awdurdod addysg lleol bwysoli niferoedd disgyblion yn ôl unrhyw un neu bob un o'r ffactorau canlynol —

(a) oedran, gan gynnwys pwysoliad yn ôl cyfnod allweddol neu grŵ p blwyddyn;

(b) a yw disgybl yn cael addysg feithrin gan ysgol;

(c) yn achos disgyblion o dan bump oed, eu hunion oedran wrth gael eu derbyn i'r ysgol;

(ch) yn achos disgyblion o dan bum oed, yr oriau y maent yn bresennol;

(d) anghenion addysgol arbennig;